Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Adran yr Amgylchedd

FFURFLEN GAIS AM DOCYN TYMOR MAES PARCIO YN WRECSAM DEFNYDDIWCH <u>LYTHRENNAU BRAS</u>

ENW'R CEISYDD: Teitl_____ Enw_____

Cyfeiriad_____

_____Cod Post_____

Rhif Ffôn_____

Dyddiad_____ Llofnodwyd_____

Hoffwn wneud cais am ddisgiau tocyn tymor i'w defnyddio ym Meysydd Parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel a ganlyn, ac rwy'n cytuno i gadw at amodau eu defnyddio:-

Maes Parcio	**Nifer**	**Pris**	**Cyfanswm (£) yn cynnwys TAW**
1 Marchnad y Bobl		Nifer y disgiau am £200.00 (£166.67 + £33.33 TAW) am 6 mis	
2 Byd Dŵr		Nifer y disgiau am £300.00 (£250.00 + £50.00 TAW) am 6 mis	
Os prynir tocyn tymor ar gyfer Maes Parcio Aml-lawr Marchnad y Bobl, bydd gan y deiliad yr hawl i barcio yn unrhyw rai o feysydd parcio CBSW ar ddydd Sul yn unig, gan y bydd Maes Parcio Aml-lawr Marchnad y Bobl ar gau i'r cyhoedd			
3 Ffordd y Cilgant		Nifer y disgiau am £168.00 (£140.00 + £ £28.00 TAW) am 6 mis	

Dychwelwch y ffurflen hon gyda siec neu archeb bost yn daladwy i "Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam" i:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Gwasanaethau Parcio, Pencadlys Adran yr Amgylchedd
Ffordd Dde yr Abaty, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Wrecsam, LL13 9PW.

Neu, gallwch wneud taliad dros y ffon gyda cherdyn credyd/debyd. Ffoniwch 01978 292 042

AR GYFER Y SWYDDFA'N UNIG

Marchnad y Bobl – NRP 111 8337 Byd Dŵr – NRP 212 8337 Ffordd y Cilgant– NRP 220 8337
D.S. Cofiwch sicrhau trin holl incwm tocynnau tymor fel 'Cyfradd Safonol' at ddibenion TAW

Rhif y dderbynneb…….	Swm…….	Cyhoeddwyd tocyn gan……
Rhif y Tocyn Tymor ……..	Dyddiad y Rhoddwyd……	Yn Ddilys Tan…….

AMODAU DEFNYDDIO

1. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("y Cyngor") yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu niwed i geir a barciwyd yn y Maes Parcio na'u cynnwys, oni bai fod colled neu niwed o'r fath yn cael ei achosi trwy esgeulustod y Cyngor.

2. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw anaf corfforol i ddeiliad y Tocyn Tymor, unrhyw deithiwr deiliad y Tocyn Tymor, neu unrhyw rai a awdurdodwyd gan y perchennog i fynd i'r Maes Parcio mewn cysylltiad â defnyddio'r Tocyn Tymor, oni bai fod anaf o'r fath yn cael ei achosi trwy esgeulustod y Cyngor.

3. Rhaid gosod disg y Tocyn Tymor mewn man amlwg ar ffenestr flaen y cerbyd fel bod unrhyw Swyddog awdurdodedig y Cyngor yn gallu ei archwilio'n rhwydd ar unrhyw adeg er mwyn cadarnhau ei ddilysrwydd mewn cysylltiad â'r Maes Parcio.

4. Tra bo yn y Maes Parcio, rhaid i ddeiliad y Tocyn Tymor beidio â pheri neu ganiatáu parcio'r cerbyd fel ag i rwystro unrhyw fynedfa, safle neu gilfach wasanaethau, hydrant, is-orsaf neu unrhyw fynedfa neu allanfa adeiladau gerllaw'r Maes Parcio.

5. Bydd disg y Tocyn Tymor a roddwyd i'r deiliad yn aros yn eiddo'r Cyngor a rhaid ei ildio i'r Cyngor ar derfyn cyfnod ei ddilysrwydd neu ar derfynu'n gynharach yr hawl i barcio yn y Maes Parcio a roddwyd gan y disg Tocyn Tymor os digwydd i hawl o'r fath gael ei thynnu'n ôl gan y Cyngor am ba reswm bynnag.

6. Mae disgiau Tocyn Tymor a roddwyd i'r deiliad yn anhrosglwyddadwy a rhaid ei ildio i'r Cyngor os digwydd nad yw deiliad y Tocyn Tymor angen defnyddio'r Maes Parcio mwyach.

7. Os digwydd i'r deiliad golli'r disg Tocyn Tymor a gafodd, mae modd cael disg yn ei le am £6.25 (chwe phunt a phum ceiniog ar hugain) yn achos Ffordd y Cilgant a £25.00 (pum punt ar hugain) yn achos safleoedd eraill. Bydd hyn yn ychwanegiad at unrhyw daliadau Rhybudd Tâl Cosb sy'n ddyledus yn deillio o'r golled hon.

8. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gau'r Maes Parcio perthnasol i'r disg Tocyn Tymor ar unrhyw ddiwrnod pan fo angen y Maes Parcio ar gyfer unrhyw achlysur dinesig neu arbennig arall neu os digwydd argyfwng cyhoeddus neu pan fo gofyn gwneud gwaith trwsio a chynnal a chadw'r Maes Parcio ei hun neu unrhyw adeiladau neu gyfleusterau cyfagos.

9. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i derfynu'r hawl i barcio a roddwyd drwy'r Tocyn Tymor ac mewn achosion priodol bydd yn gwneud ad-daliad ar sail cyfran am y Tocyn Tymor.

10. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyhoeddi Rhybudd Tâl Cosb ar gyfer cerbydau:-

    (a) lle na ddangoswyd disg Tocyn Tymor.

    (b) lle parciwyd y cerbyd yn anghywir;

    (c) lle nad oedd hawl gyrru'r math o gerbyd i'r ardal honno;

    (d) lle gadawyd neu lle defnyddiwyd ôl-gerbyd y cerbyd yn y man parcio;

    (e) unrhyw doriad arall o Orchymyn perthnasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd).